PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 22 Awst 2019

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr:
A. Lenny, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, B.D.J. Phillips and G.B. Thomas

Hefyd yn bresennol:
Y Cynghorwr H. Shepardson a fu'n annerch y Pwyllgor mewn perthynas â chais cynllunio S/21597
G. Morgan, Cynlluniwr Trafnidiaeth gyda Fframwaith Atkins

Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
B Kathrens, Rheolwr Amddiffyn Rhag Llifogydd Ac Amddiffyn yr Arfordir
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu (De)
Z.M. James, Swyddog Rheoli Datblygu (y De)
Z.A. Evans, Uwch-dechnegydd (Cyswllt Cynllunio)
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

Y Siambr, Neuadd y Sir - 10.00 - 10.55 yb

1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr S.M. Allen, P.M. Edwards, K. Madge a J.E. Williams.

2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

E/38980	**Addasu eiddo teras yn dŷ amlfeddiannaeth 6 ystafell wely, Stryd y Cei, Rhydaman, SA18 3EN**

4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

4.1 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ohirio ystyried y cais cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle:-

S/21597	**Adeiladu 100 o anheddau a gwaith cysylltiedig ar dir ger Garreglwyd, Pen-bre, Sir Gaerfyrddin** Cyflwynwyd sylw gan yr Aelod Lleol a oedd yn gofyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliad safle er mwyn gweld effaith yr amwynder gweledol a'r mynediad a gweledd annigonol i'r safle. Yn unol â phrotocol y Pwyllgor Cynllunio, roedd y gwrthwynebwyr a oedd wedi gofyn am gael siarad ynghylch y cais hwn wedi dewis cyflwyno eu sylwadau yn y cyfarfod a fydd yn dilyn yr ymweliad â'r safle. **RHESWM:** Galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ar y datblygiad arfaethedig ac i asesu'r effaith ar y briffordd a'r amwynderau lleol.

4.2 PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

S/38939	**Estyniad unllawr yng nghefn yr eiddo a thramwyfa newydd y tu blaen, 46 Heol Nant, Dyffryn y Swistir, Llanelli SA14 8EN**
S/38967	**Cynnig i addasu'r garej presennol, estyniad cyswllt a phortsh blaen, 29 Heol Saron, y Bynea, Llanelli SA14 9LT**
S/39013	**Llecynnau addysgu ac ymarfer newydd, Clwb Golff Ashburnham, Teras y Graig, Porth Tywyn SA16 0HN**

5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ganiatáu'r cais cynllunio canlynol yn unol â'r amodau a nodwyd yn Adroddiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

W/38894	**Cynnig i newid defnydd y siop bresennol i ddefnydd preswyl, 15 Heol y Bont, Caerfyrddin, SA31 3JS**

6. LLOFNODI YN GOFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 25AIN GORFFENNAF, 2019

PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Pwyllgor oedd wedi ei gynnal ar 25 Gorffennaf, 2019 gan eu bod yn gywir.

_____ _____

CADEIRYDD **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]